Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## Environment and Sustainability Committee

Alun Davies AC
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a
Bwyd
Llywodraeth Cymru

3 Mehefin 2014

Annwyl Alun

**Bioamrywiaeth**

1.1 Ar 21 Mai, cynhaliwyd trafodaeth bwrdd crwn gyda rhanddeiliaid i archwilio'r cynnydd a wnaed yng Nghymru o ran cyrraedd targedau Bioamrywiaeth Aichi 2020 a'r camau a gymerwyd ers cyhoeddi'r Adroddiad Cyflwr Natur ym mis Mai 2013.

1.2 Dywedodd y rhanddeiliaid wrthym fod angen amcanion bioamrywiaeth lefel uchel a bod angen penderfynu ar gamau pendant i'w cymryd i'w cyflawni. Roeddent o'r farn na allent ymdrechu i gyrraedd targedau bioamrywiaeth 2020 oni bai bod cynlluniau o'r fath ar waith.

1.3 Rydym yn gobeithio y bydd y Cynllun Adfer Natur o cynnig cyfeiriad i'r gwaith hwn, er inni glywed disgrifiadau gwahanol o ddiben y cynllun. I'n helpu ni i ystyried y mater hwn, a allwch chi gadarnhau:

- yr amserlen ar gyfer cyhoeddi'r Cynllun Adfer Natur ac a fydd yn nodi amcanion lefel-uchel ac yn darparu cynllun gweithredu i'w roi ar waith; neu'r ddau;

- a fyddwch yn cyflwyno cynllun terfynol cyn toriad yr haf, neu'n lansio ymgynghoriad ynghylch cynllun; a
- sut y bydd y cynllun hwn yn cyd-fynd â'r polisi Cyfoeth Naturiol arfaethedig a'r cynlluniau adnoddau naturiol seiliedig ar ardaloedd a gaiff eu sefydlu gan Fil yr Amgylchedd.

1.4 Ymddengys bod rhywfaint o amheuaeth ynghylch pwy sy'n arwain y gwaith o greu canolbwynt data. Pan ddaethoch i gyfarfod â ni ar 1 Mai i drafod Rheoli Tir yn Gynaliadwy, dywedasoch fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd yr awenau ac yn creu canolbwynt data a bod ganddynt ddigon o adnoddau i gyflawni hyn (gweler paragraffau 16-18 o'r trawsgrifiad). Yn ein sesiwn ar 21 Mai, dywedodd un o gyfarwyddwyr Cyfoeth Naturiol Cymru mai Llywodraeth Cymru oedd yn arwain y gwaith hwn, er y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfrannu ato. A allwch chi gadarnhau:

- mai Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r sefydliad sy'n arwain y prosiect i sefydlu canolbwynt data; a
- eich bod yn dal yn sicr eu bod yn cael digon o adnoddau i ymgymryd â'r rôl arweiniol hon.


1.5 Fel aelod o'r pwyllgor a'n rhagflaenodd yn y Trydydd Cynulliad, byddwch yn cofio iddo gyhoeddi adroddiad ar fioamrywiaeth yn gynnar yn 2011. Roedd un o'r argymhellion a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru bryd hynny yn ymwneud â phrif ffrydio bioamrywiaeth drwy holl adrannau ac asiantaethau Llywodraeth Cymru. Wrth ymateb i'r argymhellion, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i:

'[...] gynnal archwiliad o holl adrannau ac asiantaethau'r Llywodraeth i nodi'r hyn sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i hybu bioamrywiaeth a bydd yn asesu pa mor effeithiol yw hyn o safbwynt ecolegol gan ddefnyddio'r egwyddorion a nodwyd yn y ddogfen, Cymru Fyw, fel llinyn mesur. Bydd adroddiad cynnydd yn cael ei baratoi ar gyfer

Cynhadledd Bioamrywiaeth Cymru ym mis Medi 2011 cyn y caiff ei gyhoeddi'n ffurfiol. '

1.6 Nid ydym yn ymwybodol bod yr adroddiad hwn wedi'i gyhoeddi a gofynnwn ichi gyflwyno'i gasgliadau a'r cynnydd a wnaed ers yr archwiliad yn 2011.

Yn gywir,



**Alun Ffred Jones AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd